# Allgymorth y Cynulliad
# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)
## Triniaethau Arbennig – Cyfranogwyr fideo



## Gwenan Evans BSc LicAc MBAcC

**Aciwbigydd, Aciwbigo Gwenan Evans**

**Lleoliad: Penarth, Bro Morgannwg / Y Mwmbls, Abertawe**

Graddiodd Gwenan o'r Coleg Meddygaeth Integredig Tsieineaidd ac mae hi'n aelod o Gyngor Aciwbigo Prydain. Mae hi yn gweithredu o ddwy glinic, ac mae ganddi brofiad o gofrestru gyda chynghorau Abertawe a Bro Morgannwg. Er bod Cyngor Abertawe yn weithgar yn eu harolygiadau o'i chlinig, mae hi eto i gael arolygiad yn ystod y pum mlynedd mae hi wedi gweithredu ym Mro Morgannwg, er ei bod wedi ei derbyn ar eu cofrestr trwydded.



## Graham Bowman

**Perchennog, Inc Gogledd Cymru**

**Lleoliad: Prestatyn, Sir y Fflint**

Mae Inc Gogledd Cymru inc yn ymfalchïo mewn bod yn stiwdio tatŵ broffesiynol a chyfeillgar. Mae Graham a'i holl artistiaid wedi cofrestru gyda awdurdod iechyd Cyngor Sir Ddinbych, ac yn aelodau o Ffederasiwn Tatŵio Prydain sy'n hyrwyddo tatŵio diogel yn y DU.



## Bret Collins

### Cyfarwyddwr, Save Face Cyf.

### Lleoliad: Tonysguboriau, Ogwr

Mae Bret, ynghyd â wraig Ashton yn Gyfarwyddwyr o Save Face Cyf. Mae Save Face Cyf yn cynnig cynllun achredu ar gyfer darparwyr triniaethau cosmetig heb lawdriniaeth. Maent yn achredu Meddygon, Nyrsys a Deintyddion yn erbyn rhestr gadarn o safonau gan eu Cyfarwyddwr Clinigol Emma Davies. Bydd darparwyr achrededig yn dilyn arolygiad llwyddiannus yn ymddangos ar eu cyfleuster peiriant chwilio fel caiff y cyhoedd ei ddefnyddio i ddod o hyd i ddarparwyr triniaethau diogel.



## Dee Yeoman

### Perchennog, Tatŵs Borth

### Lleoliad: Borth, Ceredigion

Yn dilyn gyrfa llwyddiannus fel peilot awyrennau, cychwynodd Dee ar yrfa newydd fel artist tatŵ. Wedi ei lleoli ym Morth, mae Dee yn artist llaw rydd sy’n arbennigo mewn darnau mawr, ail-weithio hen datŵs, gwaith llewys Siapaniaidd a tatŵs celfyddyd gain manwl.   Mae hi hefyd yn cynnig triniaethau tyllu corff. Ymhell o fod yn stiwdio traddodiadol, mae Dee yn gweithio o'i chartref ar sail apwyntiadau.



## Teja Entwistle

**Aciwbigydd, Clinig Iechyd Naturiol Llangollen**

**Lleoliad: Llangollen, Sir Dinbych**

Mae Teja yn ymarfer fel aciwbigydd ers dros 24 mlynedd ac an aelod o Gyngor Aciwbigo Prydain a'r Gymdeithas Meddygaeth Traddodiadol Tsieineaidd. Mae Teja yn teimlo'n gryf y dylai aciwbigo gael eu heithrio o'r diffiniad yn y Bil, ond yn teimlo bod creu system trwyddedu gorfodol yn bwysig i reoleiddio ymarferwyr sydd ddim yn aelodau o gyrff proffesiynol.



## Andy Millard

**Perchennog, Delinquent Inks**

**Lleoliad: Llanfair-ym-Muallt, Powys**

Yn dilyn gyrfa lwyddiannus fel meddyg yn y fyddin, dychwelodd Andy i sefydlu "Delinquent Inks". Gyda dros 20 mlynedd o brofiad meddygol mae ganddo nifer o bryderon sy'n ymwneud â triniaethau eraill dylid cynnwys yn y diffiniad o driniaethau arbennig.



## Catherine Green

**Perchennog, Clinig Y Bae**

**Lleoliad: Bae Colwyn, Gorllewin Clwyd**

Catherine yw perchennog y Clinig Laser a Harddwch Y Bae, Bae Colwyn. Mae’r busnes wedi gweithredu yn yr ardal ers dros 14 mlynedd, ond mae Catherine wedi ymarfer ac arbenigo mewn electrolysis ers dros 35 mlynedd. Mae'r clinig yn cynnig amrywiaeth o driniaethau harddwch, corff a holistig. Mae Catherine yn credu er mwyn gwella safonau, y dylid buddsoddi arian i wella’r hyfforddiant sydd ar gael mewn colegau lleol.



## Rhonwen Mai Ellis

**Perchennog, Y Blwch Tlws Cyf.**

**Lleoliad: Porthmadog, Gwynedd**

Sefydlodd Rhonwen ei busnes 16 mlynedd yn ôl ym Mhorthmadog. Mae’r busnes yn cynnig amrywiaeth o driniaethau yn cynnwys: electrolysis, aromatherapi; adweitheg; triniaethau ewinedd a chwistrell lliw haul.  Mae Rhonwen erioed wedi gweithredu o Borthmadog, ac yn gofidio dros allu awdurdodau lleol i rheoli system drwyddedu orfodol arfaethedig. Yn y 16 mlynedd y mae hi wedi gweithredu, unwaith mae’r cyngor wedi archwilio ei chlinig.